Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

1701013

30/05/2018

14:00

M7X02151: Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion

Geiriau = 4,407

CANLYNIAD

MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	**Sioned Raymond**	**Rhif P y myfyriwr:**	**1701013**
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	**Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion**	**Lefel y Modwl (6 neu 7):***	**6**
Cod y modwl:*	**M7X02151**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):***	**70%**
Arweinydd modwl:*	**Helen Lewis / Gail Parker / Sarah Elsey**		
Teitl yr Aseiniad:	**Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau**	**Rhif yr Aseiniad (x o x):***	**1/2**
Dyddiad cychwyn:*	**5/3/18**	**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:***	**30.5.18**
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*	**27.6.18**		

Cyfeirnodi:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnodi i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, teitl y llyfr, argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	**Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol.** **Sylwer:** y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. **Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr** Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	**Dyddiad:**	**30.5.18**

Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.	**IE**	
	NA	√

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO'N DDA YNDDYNT	**RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU**
Casglu digon o dystiolaeth i arwain a chefnogi fy ymchwil	Dadandoddi mewn fanylder

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	**CYFEIRIO**		**D**	**C**	**B**	**A**
	METHU'N LLWYR	ANFODDHAOL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc)				✓		
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)			✓			
3. Cymwysiadau Pedagogaidd a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)				✓		
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol				✓		

Enw'r myfyriwr	Sioned Raymond	**Dyddiad**	30/05/2018
Llofnod y Myfyriwr	SRaymond		

Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Rhagarweiniad

Ar hyn o bryd yr wyf yn addysgu mewn ysgol trefol enfawr yng Nghaerdydd sy'n cael ei chategoreiddio fel ysgol wyrdd. Mae cyfanswm o tua 600 o ddisgyblion yn yr ysgol, ac yn fy nosbarth, dosbarth blwyddyn 6, mae gennyf 24 o ddisgyblion. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn fy nosbarth wedi cael eu magu mewn cartrefi gydag un rhiant sy'n fwy tebygol o siarad Saesneg. Fodd bynnag mae safon eu Cymraeg a disgwyliadau eu hathrawes a'r ysgol yn uchel felly mae safon a'u defnydd o Gymraeg yn arbennig o dda gan ystyried eu cefndiroedd.

Y disgybl a ganolbwyntiais ar yn ystod fy wythnosau cyntaf o fy mhrofiad dysgu yn yr ysgol hon oedd merch sy'n 11 oed. Cyfeirir ati fel 'y disgybl targed' trwy'r traethawd. O ran ei gwaith academaidd, ystyriwyd i fod yn ddisgybl canolig gan yr athrawes dosbarth. Dywedwyd ei bod yn cyflwyno gwaith lefel 4 ym mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Ar gyfer Cymraeg, awgrymwyd ei bod yn lefel 5 ond mynegodd yr athrawes ei bod yn cyflawni gwaith lefel 5 isel. Hoffa'r athrawes sicrhau bod y disgybl targed yn lefel 5 cadarn cyn iddi adael yr ysgol gynradd ar ddiwedd mis Gorffennaf.

O ran ei phersonoliaeth mae'r disgybl targed yn ferch arbennig o gwrtais a hyderus. Mae'n boblogaidd ymysg ei chyfoedion ac mae'n gwenu o glust i glust bob dydd. Cefais sgwrs anffurfiol efo'r athrawes dosbarth ar ddechrau'r profiad am y disgybl targed, a'r geiriau a ddefnyddiodd gyda llawer o bwyslais oedd 'lyfli' a 'sorted'. Yn ystod y sgwrs roedd yn amlwg iawn nad oes unrhyw bryder ynglŷn â'r disgybl, o ran problemau adref, agwedd ddrwg neu ei bod yn plentyn sy'n tangyflawni. Nid oes pryder efo'r athrawes i'r disgybl targed ddechrau ysgol uwchradd oherwydd mae'n gwybod ei bydd ymysg ei ffrindiau, bod ganddi'r gallu i gyflawni a bydd yn setlo heb drafferth.

Dewisais ganolbwyntio ar y disgybl hwn oherwydd rhoddodd ganiatâd i mi ei harsylwi yn ystod gwersi, edrych ar a llun copïo'i gwaith, recordio'i llais yn ystod cyfweliadau, cymryd nodiadau arni yn ystod fy mhrofiad dysgu a chymryd diddordeb mewn unrhyw agwedd o'i addysg a'i bywyd tu hwnt i'r ysgol.

Ar ôl i mi benderfynu ar y disgybl penodol, treuliais amser yn darllen ei gwaith Cymraeg, Saesneg a mathemateg flaenorol er mwyn gweld safon a chywirdeb ei gwaith. Darllenais yn wythnosol efo hi er mwyn cadw nodiadau a fydd yn helpu adnabod ei galluoedd a gosod targedau er mwyn iddi gyflawni a gwella'n gyson.

Casglu data

Er mwyn i mi ddadansoddi datblygiad cyfannol y disgybl targed penderfynais i'w harsylwi yn ystod gwersi ac amser chwarae, llun copïo'i gwaith a'i ddadansoddi'n fanwl er mwyn ystyried y pethau da a'r pethau sydd angen gwella, cynnal cyfweliadau efo hi a'i hathrawes, tynnu ffotograffau ohoni, recordio adborth a arweinir ganddi am ei phrofiadau dysgu a chadw cofnod darllen er mwyn sicrhau ei bod hi'n gwella. Gwnaeth yr holl ffyrdd o gasglu data mabwysiadu'r Dull Mosaig (Clark a Moss, 2011).

Mae'r Dull Mosaig yn cynnwys sawl ffordd o gasglu data ansoddol sy'n addas ar gyfer plant. Mae'r rhain yn cynnwys methodoleg draddodiadol, megis arsylwi a chynnal cyfweliad, yn ogystal â chynnwys tri offer blaengar: cymryd lluniau i ddogfennu 'beth sy'n bwysig yma'; mynd ar daith i ddangos yr ardaloedd mwyaf perthnasol/pwysig iddynt; a rhoi adborth am brofiad dysgu'r disgybl. Mae pob un dull yn adeiladu'r mosaig er mwyn i ymchwilwyr ac athrawon ennill dealltwriaeth well o'r disgybl a'i safbwyntiau (Clark 2005). Cafodd y Dull Mosaig ei datblygu er mwyn cynnwys llais y disgybl mewn ymchwiliadau (Clark a Moss, 2011). Mae dau gam i'r aml-ddull; y cam gyntaf yw casglu'r holl wybodaeth ac wedyn ar gyfer yr ail gam mae angen trafod a chwestiynu am y pethau a ddangosodd a dwedodd y disgybl. Fy mwriad oedd

casglu'r holl wybodaeth gan ddefnyddio'r wahanol fathau o gasglu data ansoddol er mwyn eu dadansoddi a chyflwyno barn gyfannol yn y pendraw.

Casglwyd data ansoddol oherwydd yr oedd angen i'r disgybl targed cyfleu'i safbwyntiau a mynegi teimladau. Y gwendid o gasglu'r math o ddata yw dylanwad yr ymchwilwyr pan mae angen dadansoddi'r data (Coffey 1999). Dadleuodd Coffey (1999) gall y ffordd mae'r ymchwil yn cael ei chynnal, ei recordio a'i dadansoddi cael effaith sylfaenol ar y proses a'r casgliad. Fodd bynnag, ar y llaw arall pwysleisiwyd bod data ansoddol yn cyfleu gwybodaeth drylwyr sy'n hollol bwysig i ystyried (Stige et al, 2009). Dywedodd Eide a Winger yr oedd cyfweliad (sef math o ymchwil ansoddol) wedi helpu er mwyn canolbwyntio ar safbwynt plentyn: "...[interviews] can make a constructive contribution to the search for new knowledge" (2005: 80). Gwnaeth Danby et al. sôn yn gyffredinol am y manteision o gynnal cyfweliadau:

> The method of the research interview has become influential and a useful tool to allow researchers to access topics that, although potentially relevant to children, may not necessarily occur naturally in conversations and therefore be unable to be observed. (2011: 4).

Trwy drafod am ei syniadau a chynnal taith o gwmpas yr ystafell dosbarth a'r ysgol, datblygwyd dealltwriaeth o'r pethau mae'n ystyried yn bwysig a'i barn ar ei haddysg a'i chyflawniadau.

Dadansoddwyd ei gwaith er mwyn sylwi ar ei hymdrech i gwblhau'r meini prawf llwyddiant, ansawdd ei gwaith, a'i chryfderau a gwendidau o ran dealltwriaeth (megis atalnodi, rheolau treigladau ayyb.). Penderfynais fyddaf yn elwa wrth wneud hyn er mwyn ffurfio golwg cyffredinol o'i galluoedd academaidd.

Wrth i mi baratoi'r gwaith ymchwil ystyriwyd llawer o faterion moesegol. Dilynais ddogfen BERA (2011) a dogfen Research Ethics & Integrity Code of Practice (University of Wales Trinity St. Davids, 2017) er mwyn sicrhau fy mod yn gweithredu mewn modd moesegol a chywir wrth gynnal yr ymchwil. Yn gyntaf yr oedd angen i mi gael caniatâd wrth yr athrawes dosbarth i gynnal ymchwil gydag un o'r disgyblion. Trafodwyd am ofynion yr aseiniaid a phwysigrwydd y dasg. Rhoddwyd caniatâd gan yr athrawes (edrychwch ar Atodiad A am y ffurflen caniatâd). Ar ôl i mi gael ei chaniatâd yr oedd angen i mi drafod efo'r disgybl targed am y dasg benodol ac yn union beth fydd angen i mi wneud er mwyn casglu digon o dystiolaeth i gael dealltwriaeth glir o'i datblygiad cyfannol. Rhoddais yr hawl iddi stopio cymryd rhan yn yr ymchwil pryd bynnag oedd hi'n teimlo anghyfforddus. Dywedodd y disgybl targed ei bod yn fodlon i gymryd rhan ac yn ystod yr wythnosau pan oeddwn i'n gofyn am ddarnau o waith yn ei llyfrau neu oedd wedi cael eu harbed ar Hwb ar-lein nad oedd wedi gwrthod.

Dadansoddiad o'r dysgwyr.

Wrth i mi ddadansoddi'r disgybl targed byddaf yn cyfeirio at Y Model ASG gan Nottingham (2013) sy'n cyfeirio at Agweddau, Sgiliau a Gwybodaeth disgyblion o ran eu haddysg. Dywedodd Nottingham a Nottingham: "... to grow into an expert learner, your students will need to develop expertise in all three domains" (2017: 95) felly mae'n holl bwysig inni ystyried pob math o'r elfennau sydd gan y disgybl targed. Gan gynnwys ei hagweddau (megis ei hawydd i lwyddo, gwytnwch a chwilfrydedd), sgiliau (megis sgilaiu cymdeithasol, cyfathrebu a chorfforol) a'i gwybodaeth a dealltwriaeth (gan gynnwys ffeithiau, syniadau a rhifau).

Aethom ar daith o amgylch yr ystafell dosbarth a hefyd yr adeilad ysgol a'r tu allan. Pan oeddwn yn ei hystafell dosbarth gofynnwyd iddi i egluro'r pethau pwysicaf. Y peth cyntaf meddai oedd poster 'partneriaid dysgu' a oedd yn agos inni. Eglurodd fod yr athrawes dosbarth yn dewis enwau'r disgyblion ar hap i fod yn bartneriaid dysgu am gydol yr wythnos. Yn ystod y drafodaeth am farn y disgybl targed am y partneriaid dysgu amlygodd ei bod yn hoff iawn o'r system ac yn credu ei bod yn elwa wrth y cyfle i weithio ag eraill. Arsylwais yn ystod yr wythnosau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r system a dangosodd y disgybl targed ei bod yn hyblyg i weithio â phawb.

Nododd ddamcaniaeth Adeiladwaith Cymdeithasol Vygotsky (1978) am y pwysigrwydd a'r manteision o ran dysgu a dealltwriaeth o weithio a rhyngweithio ag eraill sy'n cael eu hamlygu wrth i mi ystyried y data ac effaith y system partneriaid dysgu: "Vygotsky rated children's interaction between themselves as important. In his view, interaction benefits a child when they are helped by another child who knows more about the task". (Pound a Hughes, 2005: 40). Yn ystod y cyfweliad dywedodd y disgybl targed ei bod yn ferch gymdeithasol a hyderus, a gafodd y nodweddion hyn eu hatgyfnerthu wrth ei hymateb cadarnhaol i'r system partneriaid dysgu. Mwynheuodd y dasg TGCh wythnosau yn ôl pan oedd angen iddynt greu llinell amser o ddatblygiad yn nhechnoleg fesul grŵp. Dywedodd ei bod wedi mwynhau trafod mewn grŵp, rhannu syniadau a mynegi barn. Yr ail gam i'r dasg TGCh oedd ymchwilio a chyflwyno cyflwyniad i weddill y dosbarth. Esboniodd yr oedd y wers yn hwyl iawn ac un rheswm oedd oherwydd teimlodd yn hapus i gyflwyno o flaen pawb. Yn ôl Y Model ASG (2013) byddaf yn dadlau bod y disgybl targed â meddwl agored yn seiliedig ar y ffaith ei bod yn hapus iawn i weithio ag unrhyw un, ac mae ganddi sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu gwych yn seiliedig ar yr hyn arsylwais yn ystod yr wythnosau yn yr ysgol sydd hefyd yn cael eu hatgyfnerthu gan ei hyder i gyd-weithio a chymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod gwersi.

Un peth arall dangoswyd i mi oedd y gorlan sy'n cydio i'r ystafell dosbarth. Meddai ei bod yn mwynhau cael gwersi yn y gorlan oherwydd mae'n amgylchedd hwyl i ddysgu. Ychwanegodd hoffai gael mwy o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored. Ychwanegodd am ymarfer corff yn unig maent yn defnyddio'r tu allan am addysg. Dilynwyd hyn gan sgwrs am chwaraeon. Pwysleisiodd Bailey (2006) bod chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn cael effaith hanfodol ar les blant:

> This report goes onto stress the important contribution of sport to processes of personality development and psychological well-being, stating that there is, ''strong evidence on the positive effects of physical activities on self-concept, self-esteem, anxiety, depression, tension and stress, self-confidence, energy, mood, efficiency and well-being" (Svoboda, 1994). (398).

Yn ystod ein sgwrs, dywedodd y disgybl targed ei bod yn rhan o'r tîm pêl-droed ac yn chwarae pêl-rwyd yn ddyddiol yn ystod amser chwarae gyda'i ffrindiau sy'n wych ar gyfer ei datblygiad cymdeithasol, datblygiad gwybyddol a'i datblygiad corfforol (Bailey, 2006). Mae'r holl elfennau yn arwain at les y disgybl targed. Pythefnos yn ôl, cafodd y disgybl targed ei dewis efo 11 disgyblion arall i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth tenis. Roedd tri dim o bedwar. Dim ond un tîm oedd yn dda iawn mewn tenis. Dewisom y gweddill ar gyfer eu lles. Fel dywedodd Bailey (2006) mae chwaraeon yn helpu gwella hunan-barch, egni a hyder. Nid oes diffyg hyder neu hunan-barch ganddi ond

nad ydi'n cael llawer o gyfleoedd i gynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon sy'n gallu bod yn siom i rai. Un peth sylweddolais yn ystod y gystadleuaeth oedd nad oedd y disgybl targed yn drist, dig neu wedi chwithigo pan oedd hi'n colli gêm. Mae'i hagwedd yn gadarnhaol a dywedodd sawl gwaith ei bod wedi mwynhau'r diwrnod mas draw! Yn ôl Y Model ASG (Nottingham 2013) mae'n bendant yn llwyddo efo'i sgiliau corfforol oherwydd mae'n wastad yn chwarae pêl-rwyd ac yn rhan o dimoedd chwaraeon yr ysgol. Dengys fy arsylwad bod ganddi wytnwch a hunanreolaeth i barhau yn hytrach na siomi. Pan gefais sgwrs efo'r athrawes dosbarth atgyfnerthodd ei bod yn ferch hynod o aeddfed, medrus ac mae'n "sorted" am ysgol uwchradd.

Er mwyn ystyried ei galluoedd academaidd, edrychwyd ar ei gwaith mathemateg, Saesneg, Cymraeg, a hefyd dau bwnc eraill, sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Dywedwyd bod y disgybl targed yn cyflawni lefel 4 ar gyfer pob pwnc oni bai am Gymraeg, sef lefel 5 is. Ar gyfer mathemateg mae'n yn yr ail set (sef y set gwanaf). Awgrymodd yr athrawes dosbarth dylai symud i'r set top ond ni sgoriodd yn weddol dda yn ei phrofion yn gynharach yn y mis. Atebwyd y rhan mwyaf o'r gwaith yr wyf wedi darparu yn gywir, hyd yn oed dysgais un wers heriol iawn yn ôl yr athrawes dosbarth (edrychwch ar Atodiad B am ei hatebion ar gyfer y daflen heriol). Hoff bwnc y disgybl targed yw mathemateg. Dywedodd fod mathemateg yn gwneud

iddi feddwl lot am broblemau anodd sy'n hwyl i'u datrys. Gall ei hagwedd frwdfrydig cael effaith cadarnhaol ar sut mae'n cyflawni yn y pwnc mathemateg ac mae'n awgrymu ei bod yn chwilfrydig i ddysgu a chwblhau atebion. Nodwyd dylai blant sydd â chymhelliant uwch mwyhau dysgu, dangos dyfalbarhad ac yn ymdrechu i ddysgu mwy yn ôl Gottfried (1985). Hefyd, soniwyd am y sesiynau CLIC sydd ar ddechrau pob gwers mathemateg. Dathlodd y disgybl targed oherwydd mae wedi dysgu tabl 8 yr wythnos yna a oedd un o'i thargedau tymor. Nodwyd bod y sesiynau CLIC yn gystadleuol sy'n hwyl. Mae'n mwynhau meddwl ac ysgrifennu'r ateb ar y bwrdd gwyn bach a dangos yr ateb cyn pawb arall. Wrth i mi ddysgu sesiynau CLIC a'u harsylwi mae'r disgyblion yn ymateb yn dda iawn i gystadleuaeth rhwng eu cyfoedion. Ymddengys bod y disgyblion yn fy set mathemateg yn hoff iawn o gystadlu yn erbyn ei gilydd, a ddefnyddiwyd i ysgogi a sicrhau cynnydd mewn mathemateg trwy gystadlu mewn cwisiau tablau; a fydd yn ei dro yn gwella eu datblygiad gwybyddol a chymdeithasol. Yn ôl Y Model ASG, dengys fod ganddi ddealltwriaeth dda o rifau, syniadau a ffeithiau. Mae angen iddi ddefnyddio'r wybodaeth yma er mwyn parhau i lwyddo yn y pwnc mathemateg a gobeithio symud i grŵp un.

Yn ddiweddar, cawsom wersi Saesneg lle'r amcan oedd ysgrifennu araith. Ar ôl i mi ddadansoddi ei gwaith ei bod wedi cwblhau'r dasg 'Big Write'

yn dda iawn a gwnaeth hi gynnwys y mwyafrif o'r elfennau am araith berswadiol a oedd wedi cael eu rhestru ar feini prawf llwyddiant. Dengys ei bod yn awyddus iawn i gwblhau'r gwaith i safon uchel gan ganolbwyntio ar y meini prawf llwyddiant. Atgyfnerthodd fod ganddi awydd i lwyddo. Defnyddiais restr wirio sy'n cynnwys y gofynion am lefelau 4 a 5 er mwyn lefelu safon ei gwaith. Mae'n bendant yn lefel 4 ond hefyd hoffwn awgrymu ei bod yn agos iawn at gyflawni gwaith lefel 5 (rwyf wedi atodi'r rhestr gwirio am lefel 4 fel Atodiad C a lefel 5 fel CH). Y gwendid yw gwaith o un wythnos yn unig sydd gennyf i ddadansoddi felly bydd o werth i mi gasglu nifer o enghreifftiau er mwyn tynnu llun cliriach a dibynadwy. Fodd bynnag, wrth gymharu gwaith y disgybl targed efo plant eraill yn y dosbarth mae'n amlwg nad yw safon ei gwaith Saesneg yr un mor dda ag eraill. Dadleuwyd bod diffyg o ddarllen Saesneg yn effeithio ar eirfa, dychymyg a safon ei gwaith. Darllenais efo'n wythnosol, mae'r iaith y llyfr yn aryneilio pob wythnos. Sylwyd bod ganddi fwy o ruglder a hyder i ddarllen yn y Gymraeg i gymharu â Saesneg. Byddaf yn awgrymu iddi barhau i ddarllen Saesneg yn gyson er mwyn helpu gwella safon ei Saesneg, dysgu amrywiaeth o eirfa a chywirdeb o ran ysgrifennu brawddegau. Awgrymwyd Bazerman (1980) bod cydberthynas yn bodoli rhwng darllen ac ysgrifennu. Os oedd y disgybl yn awyddus i ddarllen, enwedig yn y Saesneg, dadleuodd Bazerman bydd ansawdd ei gwaith yn gwella

oherwydd bydd ganddi wybodaeth a dealltwriaeth ehangach. Wrth i mi gynnal cyfweliad efo hi, gofynnais a oes pryder ganddi o ran ei dealltwriaeth o'r iaith Saesneg oherwydd mewn gartref Cymraeg mae'n byw. Atebwyd: "Gwnes i wella Saesneg ym mlwyddyn 5 felly dwi'n credu fy mod i'n iawn gyda Saesneg" sydd hefyd yn gallu codi pryder ar yr athrawes oherwydd nad yw hi'n sylweddoli pa mor wan yw ei gwaith ysgrifenedig neu'i rhuglder o ran darllen Saesneg.

Ar y llaw arall, mae'i Chymraeg yn dda iawn. O ran darllen, maent yn darllen llyfrau heriol sy'n helpu datblygu'i geirfa a phatrymau iaith. Mae'n hyderus i gyfathrebu trwy Gymraeg. Gall ei gwaith ysgrifenedig gwella ychydig. Yn bendant mae rheolau treigladau yn achosi trafferth iddi. O ganlyniad mae'n osgoi'r disgybl targed llwyddo ar lefel 5. Defnyddiwyd rhestr gwirio ar gyfer ei gwaith Cymraeg hefyd er mwyn i mi asesu ansawdd ei gwaith. Cafodd rhestr gwirio am lefel 4 ei hatodi fel Atodiad C a lefel 5 fel Atodiad CH. Gofynion y dasg Cymraeg oedd darllen, deall ac ateb cwestiynau ar Emmeline Pankhurst a'r Suffragettes. Mae'n amlwg iawn yn ei gwaith nad yw'r disgybl targed wedi ymdrechu i aralleirio, felly mae wedi copïo beth gafodd ei ysgrifennu ar y ddogfen. O ganlyniad, mae sawl brawddeg yn anghywir yn anffodus (edrychwch ar Atodiad D). Ar gyfer y dasg yma, penderfynwyd y disgybl targed cwblhau'r dasg oren (sef y dasg ganolig) gan yr athrawes dosbarth oherwydd

nad oeddwn yn ymwybodol o alluoedd pawb ar bryd hynny. Mewn ein cyfweliad, dywedodd ei bod yn hyderus i wneud y dasg wyrdd, ac weithiau os oes amser bydd hi'n cwblhau'r gwyrdd gwyrdd (sy'n heriol) sy'n gyferbyniad i'r hyn a wnaeth ar gyfer y dasg Gymraeg.

Meddai'r disgybl targed ei bod yn mwynhau gwyddoniaeth. Roedd hi'n hoff iawn o gynllunio a chynnal arbrawf i ymwneud a newid hinsawdd oherwydd yn ei barn hi yr oedd yn hwyl i baratoi popeth a rhannu ei rhagfynegiad. Wrth edrych ar y gofynion am dderbyn lefel 4 am wyddoniaeth byddaf yn cytuno efo'r athrawes dosbarth ei bod yn cyflawni lefel 4. Ar gyfer un wers gwyddoniaeth roedd angen gweithio mewn grŵp a chyflwynodd ei grŵp gwaith o safon uchel, gan ystyried achosion, datrysiadau ac effeithiau o newid hinsawdd. Mae'n amlwg cafodd y disgybl targed dylanwad mawr ar y dasg grŵp oherwydd nodwyd nifer o sylwadau ar y daflen gwaith (edrychwch ar Atodiad DD). Yr un peth efo'r pwnc TGCh; mae'n cyflawni lefel 4. Nid ydyn wedi cael llawer o wersi TGCh er mwyn i mi ystyried ei galluoedd yn dda iawn i fod yn deg sy'n wendid o fy nadansoddiad, ond mae'r dosbarth cyfan yn derbyn gwersi TGCh unwaith yr wythnos gan athro arall er mwyn eu helpu. Gofynnais iddi a oes angen mwy o wersi er mwyn iddi ddatblygu ei sgiliau TGCh ond teimlodd ei bod yn weddol hyderus a deallus. Ymchwiliodd am wybodaeth a

pharatôdd cyflwyniad clir a chywir o ran nod y dasg gan ychwanegu lluniau, newid lliw'r testun a'r cefndir.

Camau nesaf

Er mwyn i'r disgybl targed parhau i ddatblygu, mwynhau ei haddysg a'i wythnosau olaf yn ei hysgol hoffwn ymateb i'w dymuniadau a'i diddordebau o wersi coginio a chelf, ac i gynnal mwy o wersi yn yr awyr agored. Weithiau rwyf yn gofyn i fy nisgyblion beth hoffant nhw wneud er mwyn i mi geisio ymateb i'u dymuniadau yn aml. Enwedig oherwydd mae llais y disgybl yn bwysig iawn i ystyried ym mhob gwers. Roedd syniadau'r disgybl targed yn debyg i'r rhai rwyf wedi clywed o blaen felly hoffwn ystyried fy mod i'n paratoi ar eu cyfer.

Ar gyfer Saesneg, byddaf yn parhau i ddarllen yn gyson efo hi ac yn sicrhau ei bod yn darllen llyfr addas ar gyfer ei galluoedd. Dangosodd ei phrawf sillafu yn ddiweddar ei bod yn wan iawn ac yn cyflawni oedran darllen o blentyn 9 mlwydd oed. Hoffwn wella gan gynnal profion yn wythnosol (os mae'r athrawes dosbarth yn fodlon) er mwyn iddi elwa o weld ei chamgymeriadau. Hefyd gallai ddysgu geirfa newydd a fydd yn fantais iddi gan ei bod yn eithaf cyfyngedig ar hyn o bryd. Problem arall sylweddolais oedd ei diffyg dealltwriaeth o atalnodi (edrychwch ar Atodiad E am enghreifftiau). Tro ar ôl tro nad oedd hi'n mewnosod atalnod llawn. Er mwyn i mi gynyddu ei

hymwybyddiaeth byddaf yn eistedd gyda hi a mynd dros ei gwaith ac yn gwirio'r brawddegau er mwyn iddi sylweddoli ble mae angen gosod atalnod llawn er mwyn i'r brawddegau gwneud synnwyr. Mae'r broblem yma hefyd yn ei rhwystro i gyflawni lefel 5 cadarn ar gyfer Cymraeg.

Un o'i thargedau iaith Cymraeg yw dysgu'r rheolau am dreiglad llais. Rwyf hefyd wedi gosod targed iddi sef treiglo'n feddal ar ôl arddodiaid. Er mwyn helpu e'i harwain ei dealltwriaeth o'r rheolau penodol rwyf wedi creu llyfryn sy'n cynnwys y rheolau am dreiglo'n feddal ar ôl arddodiaid a hefyd tair rheol am dreiglo'n llais (yn anffodus nad oedd y ffeil gallu mewnosod oherwydd roedd e'n rhy fawr). Gallaf ychwanegu mwy ar ôl i mi weld ei bod yn defnyddio'r llyfryn ac yn dod i adnabod y rheolau treiglo sydd ynddo yn barod. Rwyf yn gobeithio bydd y disgybl targed yn awyddus i ddefnyddio'r llyfryn yma er mwyn cefnogi ansawdd ei gwaith. Cyn yr hanner tymor dangosais y llyfryn iddi er mwyn iddi fynegi barn arno a gofyn am newidiadau. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol felly dwi'n edrych ymlaen at ei weld yn defnyddio'r llyfryn pan fydd ysgol yn dechrau eto. O ganlyniad, hoffwn i weld y disgybl targed cyflawni lefel 5 yn gadarn er mwyn sicrhau ei bod yn cael dechreuad da mewn ysgol uwchradd.

Ar gyfer pob pwnc hoffwn iddi sicrhau ei bod yn cyflawni pob darn o waith yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant gwyrdd. Mae ganddi'r

ddealltwriaeth a'r awydd i gyflwyno gwaith o safon uwch. Anogir i anelu at y gorau er mwyn ymestyn ei gallu. Yr union beth ar gyfer gwyddoniaeth a TGCh. Darparwyd gwaith yn seiliedig ar lefel 5 gan yr athrawes dosbarth er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi'r cyfleoedd cyfartal i bawb i gyflawni lefel 5. Byddaf yn sicrhau fy mod i'n hefyd darparu gwaith er mwyn osgoi rhwystro'r disgybl i gyflawni. Rwyf yn darparu geirfa berthnasol a phatrymau brawddeg ar hyn o bryd i scaffoldio'r disgyblion gyda chywirdeb ond rwyf wedi dysgu wrth gynnal yr ymchwil yma bod rhyngweithio yn hollol bwysig i ddealltwriaeth y disgyblion ond hefyd i'u lles hefyd. Hoffwn fanteisio ar y system partneriaid dysgu a gofyn iddynt drafod a rhannu eu syniadau yn amlach oherwydd mae'n ymchwil yn dangos bod disgyblion yn elwa o'r profiad a'r cyfle rhain (Vygotsky, 1978). Nododd y disgybl targed ei bod yn mwynhau trafod gyda'i phartner dysgu oherwydd mae hi hefyd yn manteisio wrth glywed barn rhyw un arall ac yn dweud ei barn ei hun ar lafar.

Ar gyfer mathemateg hoffwn gefnogi ei datblygiad gan ganolbwyntio ar resymu. Cafodd y disgybl targed ei sgôr isaf yn y prawf rhesymeg (patrwm a welwyd gan ran fwyaf o'r disgyblion). Er mwyn helpu'r disgybl ymarfer a gwella'i dealltwriaeth byddaf yn canolbwyntio ar resymu yn ystod gwersi mathemateg er mwyn annog y disgybl a'r gweddill i ateb y cwestiynau cam

wrth gam. Rydym wedi dechrau canolbwyntio ar resymu yn barod felly yr wyf yn ymwybodol o'r drafferth mae'n cael.

Ei hail darged ar gyfer mathemateg y tymor yma yw dysgu tabl 9. Mae hi wedi llwyddo dysgu tabl 8 wythnos diweddaf felly er mwyn iddi ymarfer byddaf yn adolygu tabl 8 yn ystod sesiynau CLIC pob dydd. Credaf fod y sesiynau CLIC yn wych ar gyfer disgyblion ateb cwestiynau'n gyflym, sylweddoli bod patrwm yn bodoli ac mae'n ymarfer da ar gyfer eu mathemateg meddwl. Cafodd y disgybl targed effaith cadarnhaol wrth inni ymarfer tabl 8 trwy'r wythnos gan adrodd tabl 8 ar lafar, ateb cwestiynau yn gystadleuol a datrys symiau anoddach. Byddaf yn parhau i ddefnyddio'r sesiynau CLIC yn yr un modd er mwyn iddi lwyddo i ddysgu tabl 9.

Gall y cyfnod olaf ym mlwyddyn 6 bod yn anodd ac yn ofnus i ddisgyblion. Dywedodd y disgybl targed ei bod yn edrych ymlaen at fynd i ysgol uwchradd ond mae'n nerfus oherwydd bydd llawer o ddisgyblion newydd ac mae'r ysgol yn enfawr! Awgrymwyd i gynnal sesiynau amser cylch er mwyn i bawb cael tro i rannu eu teimladau a syniadau o ran ysgol uwchradd. Bydd y disgybl targed yn sylweddoli nad yw hi yw'r unig ddisgybl i boeni am y math o beth. Credaf y byddai'n elwa o'r sesiynau hwyl ac agored. Byddant yn cael effaith cadarnhaol ar les y disgybl targed hefyd er mwyn iddi beidio â phoeni am y newid sy'n agosáu yn fuan.

Digwyddiad arall sy'n agosáu yw diwrnod mabolgampau felly byddwn yn dechrau cynnal gwersi ymarfer corff yn amlach er mwyn paratoi ac ymarfer ar ei gyfer. Bydd ymarfer corff yn cael effaith cadarnhaol ar lefelau straen a hwyliau'r disgybl yn enwedig oherwydd soniwyd ei bod yn mwynhau chwaraeon. Fel nodiwyd yn gynharach, atgyfnerthwyd adroddiad gan Bailey (2006) bod chwaraeon yn cefnogi datblygiad lles plant felly o ganlyniad dylai ymlacio ychydig er mwyn canolbwyntio ar y chwaraeon.

O ran Y Model ASG a ddarparwyd gan Nottingham (2013) yr wyf yn ystyried bod gan fy nisgybl targed yn llwyddo i dicio pob elfen o'r agweddau ar sail tystiolaeth a gasglwyd wrth arsylwi a'i chyfweld. O ran yr elfennau sgiliau, dadleuwyd bod ganddi hyder a dealltwriaeth i lwyddo ym mhob un elfen, enwedig cymdeithasol, cyfathrebu a chorfforol. Hoffwn atgyfnerthu'r elfennau gwybodaeth oherwydd yr wyf wedi arsylwi a dadansoddi ei gwaith ac nad yw'n cyfleu i fod yn ferch gall. Er enghraifft nad yw'n darllen yn eang am y byd o'm gwmpas neu'n ymwybodol/tynnu sylw ar bethau cyfoes ar y newyddion ac yn y blaen. Tybed a hoffai ddarllen mwy o ddeunydd ffeithiol er mwyn iddi ddysgu am bethau go iawn. Mwynheuodd ddysgu am Emmeline Pankhurst a'r Suffragettes yn ddiweddar felly gobeithio dylai fod yn fodlon a hapus gyda fy argymhellion.

Casgliad

Mae'r dasg a roddwyd wedi bod yn werthfawr i mi yn bendant. Roedd y dasg o arsylwi disgybl yn fantais er mwyn i mi ganolbwyntio ar unigolyn am gyfnod o bedwar wythnos, dadansoddi ei hymdrechion tuag at ei haddysg, arsylwi ei gwendidau a'i chryfderau, a dechrau meddwl am sut gallaf adeiladu ar yr hyn yr wyf wedi dadansoddi/arsylwi er mwyn iddi ddatblygu yn ehangach a bod yn barod ar gyfer ysgol uwchradd.

Mae'r dasg wedi fy helpu cydnabod y pwysigrwydd o ddod i adnabod pob unigolyn yn dda iawn er mwyn ymateb i unrhyw drafferth maent yn cael o ran eu hastudiaethau academaidd, eu lles a'u datblygiad yn gyffredinol. Byddaf yn mynd ati i sicrhau fy mod i'n ymwybodol o wendidau'r disgyblion yn fy nosbarth er mwyn gwneud yn siŵr fy mod yn ymateb iddynt yn ystod y pedwar wythnos sydd gennyf ar ôl. Yr wyf wedi dysgu llawer am fy nisgybl targed. Megis ei diddordebau, ei hoff bynciau a'i chas bynciau, ei chryfderau a'i gwendidau, a'i hagweddau tuag at ei gwaith academaidd. Mae'r holl wybodaeth hyn yn arwain i mi wybod sut gallaf ddatblygu'r disgybl penodol er mwyn sicrhau ei bod yn llwyddo ac yn cyflawni ei llawn botensial.

Llyfryddiaeth

Bailey, R. (2006), Physical Education and Sport in Schools: A Review of Benefits and Outcomes. Journal of School Health, 76, 397-401. doi:10.1111/j.1746-1561.2006.00132.x

Bazerman, C. (1980). A Relationship between Reading and Writing: The Conversational Model. College English, 41(6), 656-661. doi:10.2307/375913

BERA (2011). Revised Ethical Guidelines for Educational Research. British Educational Research Association. UK

Clark, A. (2005). 'Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives', in Clark, A., Kjørholt and Moss, P. (eds.) *Beyond Listening. Children's perspectives on early childhood services.* Bristol: Policy Press, 29-49

Clark, A. & Moss, P. (2011). *Listening to Children: The Mosaic Approach.* London: National Children's Bureau

Coffey, A. (1999). *The Ethnographic Self: Fieldwork and the Representation of Identity*. Wales: Cardiff University.

Danby, S. J., Ewing, L. & Thorpe, K. J. (2011) 'The novice researcher: Interviewing young children', Qualitative Enquiry, 17(1), 74-84

Eide, B.J. & Winger, N. (2005). 'From the children's point of view: methodological and ethical challenges', in Clark, A., Kjørholt and Moss, P. (eds.) *Beyond Listening. Children's perspectives on early childhood services*. Bristol: Policy Press, 71-90.

Gottfried, A. E. (1985). Academic intrinsic motivation in elementary and junior high school students. Journal of Educational Psychology, 77, 631-635.

Pound, L. a Hughes, C. (2005). *How Children Learn: From Montessori to Vygotsky - Educational Theories and Approaches Made Easy.* London: Step Forward Publishing Ltd

Nottingham, J. (2013). *Encouraging learning.* Abingdon, UK: Routledge.

Nottingham, J. & Nottingham, J. (2017). *Challenging Learning Through Feedback: How to get the Type, Tone, Quality of Feedback everytime.* New York: Sage Publishers

Svoboda, B. (1994). Sport and Physical Activity as a Socialisation Environment: Scientific Review Part 1. Strasbourg, France: Council of Europe

University of Wales Trinity Saint Davids (2017). Research Ethics & Integrity Code of Practice. Online: http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf [Accesed: 21/05/2018]

Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Atodiadau:

Atodiad A

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Ynglŷn â: TAR Cynradd (gyda SAC); caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion - School Development and Pupil Progress' (M6X02151-C) (M7X02153-C)

Annwyl Fentor Dosbarth/Uwch Fentor,

Y mae gofyn i hyfforddeion, ar gyfer modwl 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion' y Brifysgol, nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle y maen nhw wedi'u lleoli sy'n dangos cyrhaeddiad canolig, ac yn ystod eu PAP, archwilio'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith a mathemateg. Gallai'r math hwn o archwilio gynnwys:

- arsyllu;
- gofyn i'r dysgwr i enwi mannau /pethau sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg;
- trafod yr hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith /mathemateg a sut y mae'n teimlo am y meysydd hynny gyda'r disgybl a'r/ neu'r athro;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywfaint am ddysgu iaith a mathemateg y dysgwr.

Dylai ymgymryd â'r gwaith hwn gynorthwyo hyfforddeion i ddeall sut mae plant yn dysgu a sut y gallant hwythau ddatblygu eu haddysgu er mwyn sicrhau dysgu effeithiol. Disgwylir i hyfforddeion ymgymryd â'r gwaith hwn yn annibynnol, a rhoddwyd iddynt ganllawiau moesegol llym i'w dilyn, er, hyd y rhagwelwn, byddai gwneud y gwaith uchod yn cyd-fynd ag arfer dyddiol arferol y dosbarth. Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enw'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau

Gofynnwyd i fyfyrwyr:

1. Ofyn am ganiatâd i wneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr)
2. Ddarparu tystiolaeth sy'n cadarnhau bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Byddem felly yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau eich bod wedi gofyn am ganiatâd ac wedi ymgymryd â'r tasgau archwilio drwy lofnodi isod.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
Sioned Raymond

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA): Ysgol Treganna

ENW'R UWCH FENTOR/ MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Lleisa Williams

Dylai'r myfyriwr / fyfyrwraig ofyn ar lafar i'r plentyn: 'Rwy wedi siarad â (enw'r hyfforddai... Miss / Mrs/ Mr) am fy ngwaith, ac rwy'n fodlon iddo gael ei ddefnyddio o fewn eu gwaith nhw. Rwy'n gwybod na chaiff fy enw llawn ei ddefnyddio (Cofnodwch isod eu hymateb).

Cytunodd y disgybl targed cymryd rhan yn fy ngwaith ymchwil. Roedd hi'n hapus ac yn fodlon i fy helpu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â:

Helen.lewis@uwtsd.ac.uk (Arweinydd TAR Cynradd) / sarah.elsey@uwtsd.ac.uk (Arweinydd Modwl)


Diolch yn fawr o flaen llaw,

Tîm Modwl DYChD

Sarah Elsey
Dr. Helen Lewis
Linda Davies
Jayne Morgan
Heddwen Davies
Gail Parker
Rachel Wallis
Nerys Defis
Nana Ryder

Atodiad B

Hinsawdd Caerdydd



1. Darganfyddwch:
   a. Y tri mis mwyaf gwlyb - Ionawr, Tachwedd, Rhagfyr
   b. Y tri mis mwyaf sych - Ebrill, Mai, Mehefin
   c. Y tri mwyaf cynnes - Mehefin, Gorffennaf, Awst
   d. Y tri mis mwyaf oer - Ionawr, Tachwedd, Rhagfyr

2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y glawiad ym mis Ionawr a mis Mehefin?

100
65
35

= 35mm

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y glawiad ym mis Mawrth a mis Tachwedd?

105
78
37

= 37

Hinsawdd Caerdydd

4. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y tymheredd ym mis Chwefror a mis Awst?

16
05
11 = 11°c

//

5. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y tymheredd ym mis Gorffennaf a mis Rhagyfyr?

°16
7
09 = 9°c

//

6. Beth yw **amrediad** y glawiad blynyddol yng Ngaerdydd? 50°c.
7. Beth yw **cymedr** y glawiad blynyddol yng Ngaerdydd? 83.8 ✓
8. Beth yw **modd** y glawiad blynyddol yng Ngaerdydd? 65°c ✓
9. Beth yw **canolrif** y glawiad blynyddol yng Ngaerdydd? 65°c.

109
59
50



Fy hoff fis yw Rhagfyr ✓ oherwydd dwi wrth fy modd yn pysgota. Dw i'n fwy tebygol o ddal pysgod mawr pan mae'n bwrw glaw yn drwm iawn.

Hunanasesu





Fy hoff fis yw Ebrill ✓ oherwydd dwi wrth fy modd yn torheulo. Dw i'n fwy tebygol o fwynhau pan mae'r tymheredd yn uwch iawn.

Rhesum da!!

Atodiad C

Lefel 4

Taflen Targedau

Targed:		1af	2ail	3ydd
Dwi'n ysgrifennu'n glir ac yn deall sut i gyflwyno fy ngwaith yn ôl y dasg.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n amrywio fy mrawddegau ac yn defnyddio cysyllteiriau yn gywir.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n defnyddio brawddegau mwy diddorol sy'n cynnwys collnodau a dyfynodau.	Cy			
	Sa	✓		
Dwi'n sillafu'n gywir fel arfer ac yn treiglo'n gywir ar adegau.	Cy			
	Sa	✓		
Dwi'n paragraffu fy ngwaith.	Cy	Dim tystiol.		
	Sa	✓		
Dwi'n dewis geiriau ac ymadroddion diddorol yn fy ngwaith.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n gallu defnyddio fy nychymyg i wneud fy ngwaith yn fwy diddorol ar gyfer y darllenydd.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n gallu mynegi fy marn.	Cy	✓		
	Sa	✓		

Targed ychwanegol yr Athro	1af	2ail	3ydd
Treiglo'n feddal ar ôl arddodiaid.			

Targedau'r Plentyn	1af	2ail	3ydd
Treiglad Llais.			

Targedau'r Plentyn	1af	2ail	3ydd
Uwchlefelu brawddegau.			

Atodiad CH

Lefel 5

Taflen Targedau

Targed:		1af	2ail	3ydd
Dwi'n cyflwyno fy ngwaith yn effeithiol ac mae'n ddarllenadwy.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n gallu defnyddio amrywiaeth o frawddegau ac ymadroddion yn gywir ar y cyfan.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n gallu defnyddio atalnodi'n gywir.	Cy			
	Sa			
Dwi'n defnyddio gwybodaeth am reolau sillafu a threiglo'n gywir.	Cy			
	Sa	✓		
Dwi'n gallu mynegi fy marn a'i chefnogi gyda rhai rhesymau.	Cy	✓		
	Sa	✓		
Dwi'n gallu trefnu fy ngwaith yn baragraffau.	Cy			
	Sa	✓		
Dwi'n dewis geiriau ac ymadroddion gwreiddiol gan ystyried y gynulleidfa ac yn deall sut i ysgrifennu amrywiaeth o genres.	Cy			
	Sa	✓		
Dwi'n ysgrifennu'n glir mewn ffordd amrywiol a diddorol, gan ddangos sylwgarwch a dychymyg.	Cy			
	Sa	✓		

Targed ychwanegol yr Athro	1af	2ail	3ydd

Targedau'r Plentyn	1af	2ail	3ydd

Targedau'r Plentyn	1af	2ail	3ydd

Atodiad D

Digital Teacher


BYDS I: Emmeline Pankhurst a'r Suffragettes

Meini Prawf Llwyddiant

- Darlien y wybodaeth am Emmeline Pankhurst a'r Suffragettes yn ofalus.
- Ateb y cwestiynau yn gywir.
- Ateb y cwestiynau gan ddefnyddio brawddegau llawn a chlir.
- Aralleirio'r wybodaeth gan ddefnyddio geiriau eich hun.
- Sicrhau cywirdeb cyn cyflwyno'r gwaith (o ran atebion, iaith a chywirdeb).

Her: **Amrywio agoriadau'r brawddegau.**

Rwy' gwneud y dasg oren



Dylai wedi arelu am ofynion gwyrdd ar gyfer y dasg yma.

1. Merch o Lloegr oedd wedi ymdrechu i sicrhau pleidlais i fenywod.
2. Cafodd Emmeline Pankhurst ei eni ~~yn~~ ar y 15fed o 1858 yn Manceinion ✓
3. Priododd Emmeline, Richard Pankhurst. Roedd Richard yn 24 yn hŷn na hi. ✓
4. Cafodd y cyntaf protest ~~protest~~ ~~dechrau~~ 1 Mehefin ar y 22ain o 1880. Y diwrnod wedyn cafodd 2 Mehefin arall a 2 arall y bachgen hynaf yn sâl farw. Bu farw Richard yn 1898 roedd Emmeline yn gwarchod y plant ar ben ei hun
5. Yn 1905 Sefydlwyd yr 'Undeb Gymdeithasol a Gwleidyddol Merched. ✓
6. Eu harwyddair yw 'Gweithredoedd, nid geiriau' yn Saesneg 'Deeds, not words'! ✓

7. Oedd yr Suffergets eisiau yr hawl i gadael merched i [illegible] pleidleisio. ✓

8. Yn 1918 pan gorffenodd y rhyfel, Paviodd y prif Weinidog David Lloyd George ganiatawodd yr ferched bleidleisio. ✓

Her

Yn fy marn i mae suffergets yn fy arwesau ✓ oherwydd bydd dynion yn dod i trin ni yn pydrin fel anifeiliaid arwes. Mae nhw wedi nevid gan sdyll i fynnu am y pethe ac os oedden nhw dawn wedi neud bydd am dda fe bydd dim merch yn hapus amdyn.

✓ Atebion cymir, da iawn

Edrychwch ar ei hateb 8. Naill ai mae angen atalnod llawn ar ôl 'y prif Weinidog David Lloyd George' neu nevid y gair 'ganiatawodd'.

Atodiad DD


Photo courtesy of US Geological Survey (@flickr.com) - granted under creative commons licence - attribution

Atodiad E





Yn y paragraph hwn mae 1 atalnod llawn. Dwi'n credu bod angen 6 ohonynt.

Dydd Gwener 11/05/

Newid yn Nhechnoleg

Gwaith ar **Hwb**

Rydym wedi creu pwerbwynt am datblygiad Technoleg ~~aeth~~ gwaethwyd ar cyfrifiaduron ac ffonau symudol. Aeth yn llwyth iawn.

Cyflwyniad gwych [redacted] da iawn am gasglu gwybodaeth dy hunan.